OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2011 Rhif 2786 (Cy. 298)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Traffordd yr M4 (Pont Maes y Gwernen, i'r Gorllewin o Gyffordd 45, Ynysforgan, Abertawe) (Terfyn Cyflymder 50 MYA Dros Dro a Chaniatáu Traffig ar y Llain Galed) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *21 Tachwedd 2011* |
| *Yn dod i rym* | *29 Tachwedd 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Drafffordd Llundain i Dde Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y drafffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar y traffig ar ddarnau penodedig o'r drafffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 29 Tachwedd 2011 ac enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Pont Maes y Gwernen, i'r Gorllewin o Gyffordd 45, Ynysforgan, Abertawe) (Terfyn Cyflymder 50 MYA Dros Dro a Chaniatáu Traffig ar y Llain Galed) 2011 .

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cyfnod y gwaith" (*"works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 20.00 o'r gloch ar 29 Tachwedd 2011 ac a ddaw i ben pan symudir ymaith yn barhaol yr arwyddion traffig dros dro;

ystyr "y darnau o'r drafffordd" *("the lengths of the motorway")* yw'r darnau hynny o'r drafffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar gyflymder uwch na 50 milltir yr awr yn y darn o'r draffordd a bennir yn Atodlen 1.

4 Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, bydd y llain galed gyfagos i'r gerbytffordd tua'r dwyrain ar y darn o draffordd a bennir yn Atodlen 2 ar gael i'w defnyddio fel lôn i draffig.

5. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3 a 4 o'r Gorchymyn hwn yn gymwys ac eithrio ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dynodi bod y cyfyngiadau y cyfeirir atynt yn yr erthyglau hynny yn weithredol.

6. Mae darpariaethau rheoliad 3 o Reoliadau Traffig Traffordd (Terfyn Cyflymder) 1974(3) i'r graddau y maent yn gymwys i'r darn o draffordd yn Atodlen 1, drwy hyn yn cael eu hatal yn ystod y cyfryw adegau pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 mewn grym.

7. Mae rheoliad 5 o Reoliadau Traffig Traffyrdd (Cymru a Lloegr) 1982(4) a darpariaethau rheoliad 9 o'r Rheoliadau hynny mewn perthynas â gyrru cerbydau yn cael eu hatal i'r graddau y maent yn gymwys i'r llain galed gyfagos i'r darn o gerbytffordd y draffordd tua'r dwyrain a bennir yn erthygl 4, ac y cyfarwyddir traffig i ddefnyddio'r llain galed benodedig.

8. Y cyfnod hwyaf y caiff y Gorchymyn hwn barhau mewn grym fydd 18 mis.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 21 Tachwedd 2011.

G R Morgan
**G MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27: Amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy o ran Cymru gan Weinidogion Cymru .
(3) O.S. 1974/502
(4) O.S. 1982/1163

## YR ATODLENNI

## ATODLEN 1

**<u>HYD A LLED Y TERFYN CYFLYMER 50 MPH DROD DRO</u>**

Y darn hwnnw o gerbytffordd y draffordd tua'r dwyrain yn Ninas a Sir Abertawe, rhwng Cyffordd 46, Llangyfelach, a Chyffordd 45, Ynysforgan, sy'n ymestyn o bwynt 1000 metr i'r gorllewin o ganolbwynt Pont Maes y Gwernen hyd at bwynt 300 metr i'r dwyrain o ganolbwynt y bont a enwyd.

## ATODLEN 2

**<u>HYD A LLED CANIATÁU TRAFFIG AR Y LLAIN GALED</u>**

Y darn hwnnw o gerbytffordd y draffordd tua'r dwyrain yn Ninas a Sir Abertawe, rhwng Cyffordd 46, Llangyfelach, a Chyffordd 45, Ynysforgan, sy'n ymestyn o bwynt 400 metr i'r gorllewin o ganolbwynt Pont Maes y Gwernen hyd at bwynt 300 metr i'r dwyrain o ganolbwynt y bont a enwyd.